Taith Dementia Ymarferol

Cynlluniwyd ar gyfer:

Hyrwyddwyr dementia a Staff Gofal Cymdeithasol sydd eisiau gwybodaeth ynglŷn â dementia a chael mewnwelediad i brofiad person sy'n dioddef o ddementia.

Trosolwg y Cwrs:

Mae astudiaethau'n dangos bod dementia yn lladd mwy o bobl na Chlefyd y Galon a Chancr, felly dementia yw prif achos marwolaeth ym Mhrydain. Dengys ystadegau y disgwylir i un o bob tri o bobl a gafodd eu geni yn 2015 i farw o ddementia. Gyda'r ystadegau hyn, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i wella ansawdd hyfforddiant ac ein bod yn dechrau canolbwyntio ar sut beth yw dementia i'r person sy'n ei ddioddef yn hytrach na'r gofalwr yn unig.

Bydd sesiwn Daith Dementia Ymarferol yn darparu profiad i bobl sydd ag ymennydd iach o sut beth yw dioddef o ddementia. Trwy ddeall dementia o safbwynt y person, gallwn newid arferion, lleihau nifer y problemau a gwella eu bywydau.